Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 28 Chwefror 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

122(v4)

1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

2 Cwestiynau i Arweinydd y Tŷ

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Arweinydd y Tŷ ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(15 munud)

Gweld y Cwestiynau

4 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbynniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd

(60 munud)

NDM6663 Mick Antoniw (Pontypridd)

Yn cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar ei ymchwiliad i Lywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2018.

7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Ad-drefnu gweinidogol: adroddiad yr Ysgrifennydd Parhaol

(60 munud)

NDM6668 Paul Davies (Preseli Penfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru i gyhoeddi, gyda'r golygiadau priodol er mwyn sicrhau bod y tystion yn parhau i fod yn anhysbys, yr adroddiad i'w hymchwiliad ynghylch a oes unrhyw dystiolaeth y cafodd gwybodaeth ei rhannu o flaen llaw heb ganiatâd – hynny yw, y datgelwyd gwybodaeth heb ganiatâd – gan Lywodraeth Cymru ynghylch yr ad-drefnu gweinidogol diweddar.

ITV Cymru – Leak inquiry clears First Minister – 25 Ionawr 2018 (Saesneg yn unig)

Wales Online – Outside the headlines: Politics updates from Cardiff Bay, Westminster and our town halls – 25 Ionawr 2018 (Saesneg yn unig)

Cyd-gyflwynwyr
Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

8 Dadl Plaid Cymru - Darlledu

(30 munud)

NDM6669 Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd darlledu i gynaliadwyedd democratiaeth hyfyw yng Nghymru;

2. Yn pryderu am y cwymp sylweddol yn nifer oriau darlledu ITV Cymru a'r toriadau sylweddol i S4C a'i sefyllfa ariannol ansicr bresennol;

3. Yn pryderu ymhellach am sefyllfa darlledu Cymraeg a Chymreig ar radio masnachol a theledu lleol ynghyd ag effaith cynigion Llywodraeth y DU i ddad-reoleiddio'r farchnad radio ymhellach;

4. Yn nodi bod angen i Gymru fod ar flaen y gad yn natblygiadau technolegau cyfryngol ac i ddarlledu Cymraeg a Chymreig fod ar nifer helaethach o blatfformau a dulliau o gynhyrchu, cyhoeddi a dosbarthu cynnwys;

5. Yn cytuno y dylai fod ystyriaeth lawn o ddatganoli cyfrifoldebau dros ddarlledu i Gymru;

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio ymarferoldeb datganoli pwerau dros ddarlledu i Gymru ac adrodd yn ôl i'r Cynulliad o fewn blwyddyn.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1. Julie James (Gorllewin Abertawe)

Dileu Pwyntiau 5 a 6 a rhoi yn eu lle:

Yn nodi y parheir i ddisgwyl i'r Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyhoeddi'r adolygiad annibynnol o S4C sy'n cael ei gynnal gan Euryn Ogwen Williams.

Yn galw ar Lywodraeth y DU a darlledwyr i sicrhau bod darlledu yn y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru'n cael ei gyllido'n ddigonol.

Yn cydnabod y dylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fod yn gwbl atebol i holl seneddau cenedlaethol y Deyrnas Unedig, fel ag sy'n briodol i'w cylch gwaith.

[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei dad-ddethol]

Gwelliant 2. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu pwynt 6 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i hyfywedd datganoli pwerau dros ddarlledu i Gymru ac adrodd yn ôl i'r Cynulliad o fewn blwyddyn.

Gwelliant 3. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r rhwymedigaeth statudol ar Lywodraeth y DU i ddarparu digon o arian i S4C er mwyn iddi gyflawni ei phwrpasau.

Gwelliant 4. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad i bwyso ar gyfer cadw'r rhwymedigaeth statudol ar Lywodraeth y DU i roi digon o arian i S4C i'w galluogi i gyflawni ei dibenion er mwyn ariannu unrhyw ddibenion estynedig y gallai ddod i feddiant S4C yn dilyn adolygiad Ogwen.

Gwelliant 5. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r rhwymedigaethau cynyddol a osodir ar y BBC o ran portreadu a chomisiynu yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau yn ei siarter newydd.

Gwelliant 6. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod system ddarlledu genedlaethol ar gyfer y DU mewn gwell sefyllfa i gyrraedd yr holl genhedloedd a rhanbarthau i hyrwyddo dealltwriaeth o ddatganoli, er ei bod wedi methu â gwneud hynny hyd yma.

9 Dadl Plaid Cymru – Parhau ag aelodaeth o'r Undeb Tollau

(30 munud)

NDM6670 Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cefnogi parhad aelodaeth Cymru a'r Deyrnas Unedig o undeb tollau presennol yr UE, yn hytrach nag undeb tollau newydd.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cefnogi cytundeb Cymru a'r Deyrnas Unedig ar drefniant tollau newydd rhwng y DU a'r UE, gyda gofynion tollau sydd mor llyfn â phosibl; gan adeiladu perthynas newydd o ran yr economi a diogelwch gyda'r UE tra'n galluogi'r DU i wneud cytundebau masnach rhyngwladol newydd.

[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei dad-ddethol]

Gwelliant 2. Julie James (Gorllewin Abertawe)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ailddatgan ei gefnogaeth i weld Cymru a'r Deyrnas Unedig yn parhau i gymryd rhan yn y Farchnad Sengl ac mewn Undeb Tollau gyda'r UE, er mwyn integreiddio gydag economïau ein cymdogion agosaf gymaint ag sy'n bosib wrth beidio â bod yn aelod-wladwriaeth o'r UE.

10 Cyfnod pleidleisio

11 Dadl Fer – gohiriwyd tan 14 Mawrth

(0 munud)

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 6 Mawrth 2018